OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1075 (Cy.51)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *13 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 10(1) o Atodlen 5 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**) ar ôl ymgynghori yn unol â pharagraff 11(1) o'r Atodlen honno â chyrff sy'n cael eu cydnabod gan y Cynulliad Cenedlaethol fel rhai sy'n cynrychioli personau sy'n debygol o gael eu heffeithio, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) (Cymru) 2000, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) 1974(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio rheoliad 3 o'r prif Reoliadau

**2.**—(1) Diwygir rheoliad 3 o'r prif Reoliadau (cyflogi swyddogion) fel a ganlyn:

(2) Ym mharagraff (1), yn lle "radiographer or remedial gymnast" rhoddir "or radiographer"(**4**).

(3) Ar ôl paragraff (1), mewnosodir y paragraff canlynol —

(**1**) 1977 p.49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) adran 26(2)(g) ac (i), ar gyfer y diffinadau o "prescribed" a "regulations". Diwygiwyd paragraff 10(1) o Atodlen 5 gan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p.41), Atodlen 6, paragraff 3; gan Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48), Atodlen 3, paragraff 14, ac Atodlen 8, Rhan I; a chan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1, paragraff 60(c).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau y gwneir y rheoliadau hyn o danynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosgwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1974/494, a ddiwygiwyd gan O.S. 1978/1090, 1982/288 ac 2000/523.

(**4**) Dileodd O.S. 1986/630 gymnastwyr adferol o'r rhestr o broffesiynau y mae Deddf Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth 1960 (p.66) yn gymwys iddynt.

"(1A) No person shall be employed as an officer of an authority to which this regulation applies, in the capacity of prosthetist and orthotist or arts therapist unless —

(a) that person is registered in respect of that profession; or

(b) that person has never been registered as a prosthetist and orthotist or arts therapist, but who, immediately before 1 April 2001, was employed in that capacity by an authority, in England or Wales, to which this regulation applies.".

(4) Yn lle paragraff (2) rhoddir —

"(2) The authorities to which this regulation applies are —

(a) Health Authorities;

(b) Special Health Authorities.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis Thomas*

13 Mawrth 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 998 c.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth) 1974 (y "prif Reoliadau").

Estynnwyd Deddf Proffesiynau sy'n Atodol i Feddygaeth 1960 ("y Ddeddf") ym 1997 i gynnwys prosthetegwyr ac orthotegwyr a therapyddion celfyddydau ymhlith y proffesiynau sy'n cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu'r proffesiynau hynny at y rhai y gwaherddir eu cyflogi gan Awdurdodau Iechyd ac Awdurdodau Iechyd Arbennig at ddibenion darparu gwasanaethau o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac eithrio pan gynhwyswyd eu henwau yn y gofrestr a gedwir yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf gan y Byrddau sy'n cadw cofrestrau ar gyfer y proffesiynau hynny, neu pan y'u cyflogid yn y swyddi hynny yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Yn ychwanegol, mae rheoliad 2(2) yn dileu'r cyfeiriad at gymnastwyr adferol o'r prif Reoliadau am nad yw'r Ddeddf bellach yn cynnwys y proffesiwn hwn ar wahân. Daeth yn rhan o broffesiwn y ffisiotherapyddion.

Diweddarwyd rhestr yr awdurdodau y mae'r prif Reoliadau'n gymwys iddynt gan reoliad 2(4).